

SESIYNAU HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR TYMOR Y GWANWYN 2018



Dyddiad, Amser a Lleoliad	Sesiwn Hyfforddi	Manylion y Cwrs
<p>Dydd Mawrth 23 Ionawr 6.00-8.00pm Ystafell Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri</p> <p>Dydd Mawrth 27 Chwefror 6.00-8.00pm Ystafell Bwyllgor 2, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri</p> <p>Dydd Mawrth 13 Mawrth 5.00-7.00pm Ystafell Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri</p>	<p>Sesiwn sefydlu i lywodraethwyr newydd - Saesneg</p>	<p>Mae hyfforddiant cyflwyno yn hanfodol i'r holl lywodraethwyr sydd newydd eu penodi. Bydd y cwrs hwn yn rhoi cyflwyniad helaeth i lywodraethu ysgolion a rôl lywodraethwyr gan ymwneud â'r holl feysydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru o dan y Rheoliadau rhagnodedig.</p> <p>Sylwch mai i un sesiwn yn unig y bydd angen i chi fynd, oherwydd mai'r un cwrs a gyflwynir ar bob achlysur.</p> <p>Hyfforddwr: Staff Consortiwm Canolbarth y De</p>
<p>Dydd Mawrth 19 Mawrth 5.00-7.00pm Ty Dysgu, Nantgarw, Trefforest, CF15 7QQ</p>	<p>Sesiwn sefydlu l lywodraethwyr newydd - Cymraeg</p>	
<p>Dydd Mawrth 30 Ionawr 6:00-8:00pm Ystafell Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri</p> <p>Dydd Mercher 7 Mawrth 5:00-7:00pm Ystafell Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri</p> <p>Dydd Mawrth 20 Mawrth 6.00-8.00pm Ystafell Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri</p>	<p>Deall Data Perfformiad Ysgolion- Saesneg</p>	<p>Mae hyfforddiant data yn hanfodol i bob llywodraethwyr sydd newydd ei benodi ac sydd wedi'i ailbenodi. Bydd y cwrs hwn yn esbonio sut y bydd eich Ymgynghorydd Her yn rhoi gwybod i chi fel llywodraethwyr am eich proffil data, gosod data, perfformiad gwerth ychwanegol, asesiad athro, cynnydd disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 1,2 a 3 a hunan-arfarnu. Bydd yn esbonio sut y gellir gwella hunan arfarnu a herio profesiynol mewn ysgolion trwy ddefnyddio'r data hwn a buddion gosod targedau cadarn sy'n arwain at ddeilliannau dysgu a lles gwell.</p> <p>Nodwch mai un o'r sesiynau hyn yn unig y bydd angen i chi fynd iddi oherwydd mai'r un fydd y cwrs ar bob achlysur.</p> <p>Hyfforddwr: Staff Consortiwm Canolbarth y De</p>
<p>Dydd Mercher 31 Ionawr 5.00-7.00pm Ty Dysgu, Nantgarw, Trefforest, CF15 7QQ</p>	<p>Deall Data Perfformiad Ysgolion - Cymraeg</p>	
<p>Dydd Iau 1 Chwefror 6:00-8:00pm Ystafell Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri</p>	<p>Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)</p>	<p>Bydd yr hyfforddiant hwn yn rhoi gwybodaeth i lywodraethwyr ysgolion am Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), sef confensiwn rhyngwladol sy'n rhestru hawliau plant. Bydd llywodraethwyr yn cynyddu eu gwybodaeth am hawliau plant a phobl ifanc; ac yn ymfyrfarwyddo â'r dyletswyddau sydd gan ysgolion os ydynt yn galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at eu hawliau. Bydd yr hyfforddiant hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y Safonau Cyfranogi Cenedlaethol i Blant a Phobl Ifanc sydd newydd eu hadolygu a rôl Comisiynydd Plant Cymru.</p> <p>Hyfforddwr: Ve Van der Voode, Swyddog Cyfranogi Ieuencid a Geraint Evans, Gweithiwr Gweithredu Ieuencid/ Gweithiwr Project Cenhaden Hawliau</p>
<p>Dydd Llun 12 Chwefror 5:00-7:00pm Ty Dysgu, Nantgarw, Trefforest, CF15 7QQ</p>	<p>Hyfforddiant Cadeiryddion</p>	<p>Bydd y sesiwn hyfforddi hon yn cynorthwyo Cadeiryddion i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwybod a deall yr hyn y mae ei angen i wireddu eu rôl yn effeithiol er mwyn cefnogi gwella ysgolion, codi safonau perfformiad, sicrhau lles disgyblion a gwella ansawdd yr addysg a ddarperir; • datblygu a gwella eu dealltwriaeth o rôl Cadeirydd effeithiol o ran arwain y corff llywodraethu; • gwella eu hyder a'u sgiliau arwain a'u gallu i ddatblygu perthnasoedd effeithiol gyda'u Pennaeth, gan eu galluogi i gynnig her a chefnogaeth i'r ysgol; • gwybod am faterion cenedlaethol a lleol ym maes addysg a'u heffaith ar gyrrff llywodraethu; a • chydabod pwysigrwydd hyfforddiant a'r angen i ddatblygu eu sgiliau nhw a rhai'r corff llywodraethu a manteisio ar gyfleoedd hyfforddi eraill sydd ar gael iddynt. <p>Hyfforddwr: Staff Consortiwm Canolbarth y De</p>
<p>Dydd Iau 15 Chwefror 6:00-8:00pm Ystafell Gorfforaethol, Y Swyddfeydd Dinesig, y Barri</p>	<p>Dileu Swyddi</p>	<p>Bydd y cwrs hwn yn ymwneud â rôl y corff llywodraethu o fewn polisi Dileu Swyddi a argymhellir gan y Cyngor. Ei nod yw sicrhau bod llywodraethwyr yn hollol gyfarwydd â'r polisi a'r gweithdrefnau Dileu Swyddi a argymhellir. Mae'n arbennig berthnasol ar gyfer llywodraethwyr sy'n aelodau o'r pwyllgorau disgyblu a diswyddo ac apeliadau disgyblu a diswyddo yn ogystal â'r pwyllgor cyllid.</p> <p>Hyfforddwr: Sue Alderman, Prif Bartner Busnes AD</p>
<p>Dydd Mercher 14 Mawrth 4:00-6:00pm Ty Dysgu, Nantgarw, Trefforest, CF15 7QQ</p>	<p>Rheoli Perfformiad Penaethiaid</p>	<p>Bydd y sesiwn briffio hon yn ymwneud â phob agwedd ar y broses a dylai llywodraethwyr sy'n aelodau'r panel gwerthuso ar gyfer rheoli perfformiad y Pennaeth fod yn bresennol fel bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rôl a'u cyfrifoldebau rheoli perfformiad er mwyn eu cyflawni'n effeithiol.</p> <p>Nodau'r hyfforddiant i lywodraethwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall gofynion y rheoliadau a sut mae eu gweithredu'n effeithiol; adolygu rôl y broses rheoli perfformiad o ran codi safonau yn eich ysgol; • Adolygu sut y mae rheoli perfformiad cael ei fewnosod yng nghyd-destun proses gwella'r ysgol; ac • Adolygu'r ffordd y caiff y broses rheoli perfformiad ei rhoi ar waith gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n cymryd rhan. <p>Hyfforddwr: Staff Consortiwm Canolbarth y De</p>

SESIYNAU HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR TYMOR Y GWANWYN 2018



Dyddiad, Amser a Lleoliad	Sesiwn Hyfforddi	Manylion y Cwrs
Dydd Iau 15 Mawrth 6:00-8:00pm Ystafell Gorrforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri	Diogelu plant ac Amddiffyn Plant	<p>Mae Deddf Addysg 2002 yn rhoi dyletswydd statudol ar gyrrff llywodraethu ysgolion i ddiogelu plant a hyrwyddo eu lles.</p> <p>Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn rhestru dyletswyddau pawb sydd â phryderon ynglŷn â lles plentyn, gan gynnwys y cyfrifoldeb i sicrhau y caiff pryderon eu atgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Bydd yr hyfforddiant hwn yn archwilio'r fframwaith deddfwriaethol ac arweiniol ar gyfer diogelu plant, er mwyn hyrwyddo eglurder a chysondeb arfer a safonau cyffredin ym mhob ysgol.</p> <p>Bydd y sesiwn yn rhestru rôl a chyfrifoldebau staff yr ysgol, gan gynnwys rôl y llywodraethwr Diogelu dynodedig o ran diogelu a hyrwyddo lles plant ac amddiffyn plant unigol rhag eu cam-drin a'u hesgeuluso. Bydd y cwrs yn cynnwys gwybodaeth sy'n perthyn i ffactorau risg i blant, diffiniadau a dangosyddion cam-drin ac esgeuluso, themâu presennol amddiffyn plant, adnabod niwed sylweddol, gweithredu ar amheuan, gwneud cyfeiriadau a'r broses amddiffyn plant.</p> <p>Dorian Davies, Swyddog Diogelu, Gwella Ysgolion a Chynhwysiant</p>
Dydd Iau 22 Mawrth 6:00-8:00pm Ty Dysgu, Nantgarw, Trefforest, CF15 7QQ	Sesiwn briffio gan Estyn ar y Fframwaith Arolygu newydd	<p>Mae Addysg yng Nghymru yn newid ac felly hefyd ddull arolygu Estyn. Bydd y fframwaith arolygu newydd yn cefnogi gwelliant trwy ganolbwyntio'n unig ar y meysydd pwysicaf sy'n helpu dysgwyr i gyflawni. Daeth y newidiadau i arolygiadau i rym ym mis Medi 2017 ac maent yn gymwys i bob ysgol a dysgu yn gwaith.</p> <p>Bydd y gweithdy pwysig hwn yn ymwneud â'r Fframwaith Arolygu Newydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y bydd yn effeithio ar lywodraethwyr a'r hyn y byddai Estyn yn ystyried yn arfer da ar gyfer cyrrff llywodraethu. Hefyd bydd amser am sesiwn Holi ac Ateb byr.</p> <p>Yn dilyn hwn bydd sesiwn sy'n seiliedig ar Her a Chymorth effeithiol. Bydd trafodaethau ar rôl y Cyfaill Beirniadol a sut y gall y corff llywodraeth berfformio a rhoi tystiolaeth ohoni orau.</p> <p>Mae hwn yn gyfle rhagorol i Lywodraethau sicrhau eu bod yn gwybod y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau Estyn.</p> <p>Liz Counsell, AEM, Estyn</p>
Dydd Llun 26 Mawrth 6:00-8:00pm Ystafell Gorrforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri	PREVENT	<p>Daeth Adran 26 Deddf Gwrth-derfysgaeth a Diogelwch 2015 i rym ar 01 Gorffennol 2015.</p> <p>Mae adran hon y ddeddf yn rhoi dyletswydd statudol ar ysgolion i "ystyried yn briodol yr angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth".</p> <p>Mae Prevent yn un o bedwar trywydd strategaeth gwrth-derfysgaeth y llywodraeth ganolog a'i nod yw rhwystro pobl rhag mynd yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth.</p> <p>Mae cael eich tynnu i mewn i derfysgaeth yn cynnwys nid yn unig eithafiaeth dreisgar ond hefyd eithafiaeth nad yw'n dreisgar, a all greu awyrgylch sy'n hyrwyddo terfysgaeth ac yn poblogeiddio barn y mae terfysgwyr yn eu hecsploetio.</p> <p>Bydd y cwrs hwn yn cynnwys Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth am Prevent (WRAP) a bydd yn gwneud llywodraethwyr yn ymwybodol o gyfrifoldebau ysgolion a'r hyfforddiant y mae ei angen ar staff er mwyn rhoi'r wybodaeth a'r hyder iddynt i adnabod plant sydd mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth ac i herio syniadau eithafol. Bydd hefyd yn rhoi gwybod am ble a sut mae cyfeirio plant a phobl ifanc i gael rhagorol o gymorth.</p> <p>Hyfforddwy: Dorian Davies, Swyddog Diogelu</p>



NODYN PWYSIG AM GOFRESTRU AM GYRSIAU HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR

A fuasech cystal â chofrestru am bob cwrs yr ydych yn dymuno mynd iddo. Mae'r broses gofrestru'n ein galluogi i wneud y trefniadau addas ar gyfer arlwy, gosod ystafelloedd a chopïo. Yn ogystal, mae'n sicrhau y gallwn ni gysylltu â'r holl fynychwyr ymlaen llaw ar yr adegau prin rheiny pan fod cwrs yn cael ei ohirio oherwydd amgylchiadau na ellid mo'u rhagweld. Cofrestrwch drwy e-bostio governors@valeofglamorgan.gov.uk neu ffonio **01446 709107 (rhif uniongyrchol)**. Cydnabyddir pob e-bost, a byddwch yn derbyn neges atgoffa 7-10 diwrnod cyn pob cwrs.

Diolch am eich cefnogaeth.

SUT I RAGNODI

- @ **EBOSTIWCH** eich archebion hyfforddiant at governors@valeofglamorgan.gov.uk
- ☎ neu **FFONIWCH** yr Uned Cefnogi Llywodraethwyr ar **01446 709107 (rhif uniongyrchol)**.

CYRSIAU HYFFORDDIANT YN Y DYFODOL

Os oes gennych unrhyw syniadau neu geisiadau am sesiynau hyfforddiant llywodraethwyr yn y dyfodol, anfonwch nhw drwy e-bost at: governors@valeofglamorgan.gov.uk iddynt gael eu hystyried.